ualy delei aovynnei pa chware awneôch chôi uelly. Côare broch ygcot medynt wynteu. ac yna gyntaf y gôarywyt broch ygcot. Arglôyd heb ygôr or got peigôarandaôut uiui nyt oed dihenyd arnaf vyllad ymyôn cot. * arglôyd heb eveyd hen gôir adyweit. Jaôn yô itt y warandaô. nyt dihenyd arnaô hynny. Je heb y pôyll mi awnaf dygyghor *di* amdanaô ef. Nyma dy gyghor di heb y riannon yna. yd ôyt ynylle y perthyn arnat llonydu eircheit a cherdoryon. gat yno ef y rodi y baôp droffot heb hi. a chymer gedernit y ganthaô nabo amovyn nadial vyth amdanaô. adigaôn yô hynny o gofp arnaô. Ef ageiff hynny yn llaôen heb y gôr or got. a minneu ae kymeraf yn llawen heb y pôyll gan gynghor eueyd ariannon. Kynghor yô hynny ygennym ni heb ôynt. Y gymryt awnaf heb y pôyll keif veichev droffot. Pi avydôn droftaô heb eueyd. yny vo ryd ywyr y vynet droftaô. ac arhynny ygollygôyt ef or got ac yrydhawyt yoreugôyr. Côuyn weithon ywaôl veicheu heb eueyd. ni aatwaenôn yneb adylyer ykymryt yganta ô. Riuaô y meicheu awnaeth eueyd. Llunnyady hun heb ygôaôl dy amot. Digaôn yô gennyfi heb ypôyll ual yllunyaôd riannon. Y meicheu aaeth ar yr amot hônnô. Je arglôyd heb y gôaôl briôedic ôyfi achymriô maôr ageueis. ac enneint yffyd reit ymi. ac ymeith ydaf gandy gennyat ti. ami aataôaf wyrda droffof yma y atteb y baôp or ath ovyno di. Ynllawen heb ypôyll. agôna ditheu hynny. Côaôl aaeth parth ae gyuoeth. Y neuad ynteu agyweirôyt y pôyll ae niuer. ac y niuer y llys yam hynny. Ac

yr bordeu ydaethant y eisted. ac ual yd eistedyssant vlŏydyn or nos honno. yd eistedwys paŏb y nos honno. Byta achyuedach awnaethant. ac amser adoeth y vynet y gyscu. ac yr ystaueu ydaeth pŏyll ariannon. athreulaŏ ynos honno drŏy digrifŏch allonydŏch aŏnaethant. A thrannoeth ynieuenctit ydyd. arglŏyd heb y riannon kyuot y uynyd. adechreu lonydu y kerdoryon. ac na omed neb hediŏ or a vynno da. Hynny awnaf i ynllaŏen heb y pŏyll ahediŏ apheunyd tra barhao y wled honn. Ef agyuodes pŏyll y vynyd a pheri dodi gostec y erchi y holl eircheit acherdoryon dangos. amenegi udunt y llonydit paŏb o honunt ŏrth y uod ae vympŏy. a hynny aŏnaethpŏyt. Y wled honno adreulŏyt. ac ny omedŏyt neb trabarhaaŏd. Aphan daruu y wled. arglŏyd heb y pŏyll ŏrth * eueyd mi agychŏynnaf gan dy genyat parth adyuet auory. Je heb eueyd duŏ arŏydhao ragot. agŏna oet achyfnot ydel riannon yth ol. Y rof i aduŏ heb ynteu bŏyll ygyt y kerdŏn o dyma. Ae uelly y mynny di arglŏyd heb yr eueyd. velly y rof aduŏ heb y pŏyll. Wynt agerdassant trannoeth parth adyuet. allys arberth agyrchyssant. agŏled darparedic aoed yno udunt. Dygyuor y wlat arkyuoeth adoeth attunt or gŏyr goreu ar gŏraged goreu. o hynny nyt etewis riannon neb heb rodi rod ennŏaŏc idaŏ. ae ogae. ae ovodrŏy. ae o vaen gŏerthuaŏr. Gŏledychu y wlat awnaethant yn llŏydyannus y vlŏydyn honno. ar eil. Ac yny dryded vlŏydyn y dechreuis gŏyr y wlat dala trymuryt yndunt owelet gŏr kymeint agerynt ae harglŏyd. ac eu braŏtuaeth

yndiettiued. ae dyuynnu attunt a ynaethant. Sef ne y doethant y gyt. y braessfelev yn dyuet. arglyd heb ynt ni adam na bydy gyuoet ti arei owyr y wlat honn. ac ynnouyn ni yn na byd itt ettiued or wreic yssyd gyt athi. Ac wrth hynny kymer wreic arall y bo ettiued itt ohonei. nyt byth heb ynt yperhey di. achyt kerychdi vot velly nys diodefyn y gennyt. Je heb y pyll nyt hir ettwa ydym y gyt. a naver damyein adigayn bot. Oetych ami hynn hyt ympenn y vlydyn. A blydyn yr amser hynn ni awnayn yr oet y dyuot y gyt. ac yrth ych kynghor ybydaf. Yr oet awnaethant. Kynn penn cybyl or oet mab aanet iday ef. ac yn arberth y ganet. Ar nos y ganet y ducpyt gyraged ywylat y mab aeuam. Sef a wnaeth y gyraged kyscu a mam y mab riannon. Sef riuedi o wraged aducpyt yr ystauell chwech wraged. Gylat awnaethant ynteu dalym or nos. Ac yn hyny eissoes kynn hanner nos kyscu a ynaeth payp o honunt. a thu arpylgein deffroi. aphandeffroassant edrych aorugant y ne ydodyssynt y mab. Ac nyt oed dim ohonay yno. Och heb yr un or gyraged neur golles y mab. Je heb arall bychan adial oed anloski ni. neu andihenydyay am y mab. aoes heb vn or gyraged kyghor orbyt am hynn. Oes heb arall mi ayn gyghor da. Beth yn hynny heb yy. Gellast yssyd yman heb hi achynayon genthi. nadyn rei or kynayon ac iryn y hyneb hitheu riannon argyaet. ae dylay. a byryn yr esgyrn ger y bronn. athaeryn * arnei ehun diuetha ymab. ac nybyd antaered ni an whech yrthi hi ehunan. Ac ar y

kyghor hónnó y trigyaſſant. Parth ar dyd riannon adeffroes ac adywaót. awraged heb hi mae ymab. Arglóydes heb ó̀y na ouyndi yni ymab. nyt oes ohonam ni namyn cleiſſeu adyrnodeu yn ymdaraó athi adiamheu yó gennym na welſam eiryoet vilóryaeth yn vnwreic kymeint ac ynot ti. ac ny thygyaód yni ymdaraó athi. neur diffetheeiſt dy hun dy uab. ac na haól ef ynni. A drúein heb y riannon yr yr arglóyd duó awyr pobpeth. na yrróch geu arnafi. Duó awyr pob peth awyr bot yneu hynny. Ac os ovynn yſſyd arnaóch chói. ymkyffeſſ y duó mi ach differaf. Dioer heb ó̀y ny adón ni dróc arnam ny hunein yr dyn yny byt. a drúein heb hitheu ny cheffóch un dróc yr dywedut y wirioned. Yr adywettei hi yndec ac yn drúan ny chaffei namyn yr un atteb gan y górraged. Póyll penn annóuyn ar hynny agyuodes ar teulu ar niueroed. a chelu y damwein hónnó ny allwyt. Yr wlat ydaeth y chwedyl aphaób or góyrda ae kigleu. Ar góyrda adoethant y gyt y wneuthur kennadeu att bóyll. y erchi idaó yſgar ae wreic am gyflafan mor anwedus ac awnathoed. Sef atteb arodes póyll. nyt oed achaós gantunt hóy y erchi ymi yſcar am górreic. namyn am nabydei blant idi. Plant aón i y uot idi hi. ac nyt yſcaraf a hi. Or gónaeth hitheu gam kymeret y phenyt amdanaó. Hitheu riannon adyuynnóys attei athraón adoethon. a góedy bot yndegach genthi kymryt yphenyt noc ymdaeru ar górraged. y phenyt agymerth. Sef penyt adodet arnei bot yny llys honno yn arberth hyt ympenn y ſeith mlyned. ac yſgynuaen

a oed odieithyr yporth. eifted ohonei geyr llaw hynnw beunyd. a dywedut y bawp or adelei or adebyckei naf *gwypei* y gyfranc honno oll. ac or a attei idi y dwyn. Kynnic y weftei. a phell*ennic y dwyn ar* y cheuyn yr llys. Adamwein y gadei yr vn y dwyn. Ac uelly treulaw talym or vlwydyn awnaeth. Ac yn yr amfer hynnw yd oed yn arglwyd ar went is coet teirnyon torryf vliant. Ar gwr gorzeu * yny byt oed. Ac yny ty yd oed caffec. Ac nyt oed yny teyrnas na march. na chaffec degach no hi. A phob nos calan mei y moei. Ac ny wybydei neb ungeir y wrth yhebawl. Sef awnaeth teirnon ymdidan noffweith ae wreic. Ha wreic heb ef llibin yd ym bop blwydyn yncadw eppil ynkaffec heb gaffel yr vn ohonunt. Beth aellir wrth hynny heb hi. Dial duw arnaf heb ef nos galanmei yw heno ony wybydaf i pa dileith yffyd yn dwyn yr ebolyon. Peri dodi y gaffec y mywn ty awnaeth. Agwiscaw arueu ymdanaw aorzuc ynteu. adechreu gwylat y nos. Ac ual ybyd dechreu nos. moi y gaffec ar ebawl mawr teledio. Ac ynfeuyll yny lle. Sef awnaeth teirnō kyuodi ac edrych ar praffter yr ebawl. Ac ualybyd uelly. ef aglywei torryf mawr. Ac ynol ytorryf llyma grauanc trwy ffeneftyr aryty. Ac yn ymauael ar ebawl geir y vwng. Sef awnaeth ynteu teirnon tynnu cledyf. Atharaw y vreich o not yr elin ymeith. Ac yny vyd hynny or ureich ar ebawl gantaw ef y mywn. Ac ar hynny torryf a difgyr agigleu ygyt. Agorzi y drws aorzuc ef adwyn ruthur ynol y torryf. ny welei ef y torryf rac tywyllet y nos. ruthur aduc yny ol ae ymlit. A dyuot

cof idaw adaw ydrws ynagoret. ac ymchoelut a wnaeth. ac wrth ydrws Hyma vab bychan yny gorn gwedy troi Henn opali yny gylch. Kymryt y mab awnaeth attaw a Hyma y mab yngryf ynyr oet oed arnaw. Dodi caeat ar ydrws awnaeth achyrchu yr ystaueH yd oed ywreic yndi. Arglwydes heb ef ae kyscu ydwyt ti. Dac ef arglwyd heb hi. mi agysceis aphandoethost ti y mywn mi a deffroeis. Ymae yma vab itt heb ef os mynny yr hwnn ny bu itt eiryoet. Arglwyd heb hi pagyfranc uu hynny. Hyma oH heb y teirnon amenegi y dadyl oH. Je arglwyd heb hi parywi wisc yssyd am ymab. Henn obali heb ynteu. mab ydynyon mwyn yw heb hi. Arglwyd heb hi digriffwch adidanwch oed gennyfi bei mynnvt ti. mi adygwn wraged yn vn ami. ac adywedwn vymot ynveichawc. Miui aduunaf athi yn Hawen heb ef amhynny. ac ueHy y gwnaethpwyt. Peri awnaethant bedydyaw ymab or bedyd awneit yna. Sef enw adodet arnaw gwri * waHt euryn. Yrhynn aoed ar y benn owaHt kynuelynet oed ar eur. Meithryn y mab awnaethpwyt yny Hys yny oed vlwyd. achynn y vlwyd yd oed ynkerdet yn gryf. A breiscach oed no mab teirblwyd avei vawr y dwf ae ueint. ar eil vlwydyn y magwyt ymab. achynureisget oed amab chweblwyd. achyn penn y pedwyred vlwydyn yd oed ynymoprau agweisson y meirch am y adu oedwyn yr dwfyr. Arglwyd heb ywreic wrth teirnon mae yr ebawl a differeist di ynos ykeueist ymab. Mi ae gorchymmynneis y weisson y meirch heb ef. ac aercheis synnyaw wrthaw. Ponyt oed da itti arglwyd heb

hi peri y hywedu ae rodi yr mab. kanys ynos y keueiſt y mab y ganet yr ebaȣl ac y differeiſt. Dyt af i ynerbyn hynny heb y teirnon. mi aadaf itti y rodi idaȣ. Arglȣyd heb hi duȣ adalho it minneu ae rodaf idaȣ. Yna y rodet y march yr mab. ac ydeuth hi att y gȣaſtrodyon ac att weiſſon ymeirch y orchymun ſynnyeit ar y march. ae uot yn hywed erbyn pan elei y mab y uarchogaeth achwedyl ȣrthaȣ. Ymyſc hynny ȣynt aglyȣſont chȣedyldyaeth y ȣrth riannō ac am y phoen. Sef awnaeth teirnon tȣryf uliant oachaȣs ydouot agawſſei ymwrandaȣ am y chwedyl ac ymouyn ynlut amdanaȣ. yny gigleu gan laȣer o luoſſogrȣyd or adelei yr Ilys mynychu kȣynaȣ truanet damwein riannon ae phoen. Sef aȣnaeth teirnon ynteu medylyaȣ am hynny. Ac edrych ar ymab yn graff. A chael yn y uedȣl ynherȣyd gȣeledigaeth na rywelſei eiryoet mab athat kyndebycket armab y pȣyll penn annȣn. Anſaȣd pȣyll hyſpys oed gantaȣ. Kanys gȣr uuaſſei idaȣ kyn no hynny. Ac ynol hynny goueileint adelis yndaȣ. o gamhet idaȣ attal y mab gantaȣ ac ef yngȣybot y vot yn vab y ȣr arall. Aphan gauaſ gyntaf o yſgaualȣch ar ywreic. ef a uenegis idi hi nat oed iaȣn udunt hȣy attal ymab gantunt agadu poen kymeint ac aoed ar wreicda kyſtal ariannon or achaȣs hȣnnȣ. ar mab yn vab y pȣyll pennannȣn. A hitheu wreic teirnon agytſynnyȣys ar anuon ymab y pȣyll. A thri pheth arglȣyd heb hi agaffȣn ni o hynny. Diolȣch ac alw*iſſen o ellȣng riannon or poen ymae yndaȣ. A diolȣch gan pȣyll am ueithryn ymab ae eturyt idaȣ. Ar trydyd

peth os gŏr mŏynvyd ymab. mab maeth ynni vyd agorreu aallo vyth awna ynni. ac ar y kynghor hŏnnŏ y trigyaffant. Ac ny bu hŏy gantunt no thrannoeth ymgyŏeiryaŏ aorruc teirnon ar y drydyd marchaŏc. ar mab yn pedwyrryd gyt ac ŏynt ar y march arodaffei deirnon idaŏ. acherdet parth ac arberth awnaethant. ac nybu hir y buant yny doethant y arberth. Pan doethant parth ar llys ŏynt awelynt riannon yn eifted yn ymyl yr yfgynuaen. Pan doethant ar ogyfuch a hi. a vnbenn heb hi nac eŏch bellach hynny mi adygaf bop un o honaŏch hyt y llys. ahynny yŏ vympenyt amlad ohonaf vy hun vy mab. ae diuetha. a wreicda heb y teirnon ny thebygafi y vn ohynn vynet ar dy geuyndi. aet ae mynno heb y mab nyt afi. Dioer eneit heb y teirnon nyt aŏn ninheu. Y llys agyrrchaffant. adiruaŏr leŏenyd auu yny herbyn. ac yn dechreu treulaŏ gŏled yd oedit yny llys. ynteu pŏyll oed yndyuot o gylchaŏ dyuet. yr neuad ydaethant ac y ymolchi. a llaŏen vu pŏyll ŏrth teirnon. ac y eifted yd aethant. Sef ual yd eiftedyffant. Teirnon y rŏng pŏyll ariannon. adeu gedymdeith teirnon uch laŏ pŏyll ar mab y ryngtunt. Goedy daruot bŏyta ar dechreu kyuedach ymdidan aŏnaethant. Sef ymdidan uu gan teirnon. menegi y holl gyfranc am y gaffec ac am y mab. ac megys y buaffei y mab ar y hardelŏ hŏy teirnon ae wreic ac y magyffynt. ac weldy yna dy uab arglŏydes heb yteirnon. aphŏybynnac adywat geu arnat cam awnaeth. a minneu pan gigleu ygouut aoed arnat. trŏm uu gennyf adoluryaŏ

aȣneuthum. Ac ny thebygaf or niuer hȣnn oll neb nyt adnappo vot ymab yn uab y pȣyll heb y teirnon. Nyt oes neb heb y paȣb ny bo diheu gantaȣ hynny. Y rofi aduȣ heb y riannon oed escor vym pryder ymi pei gȣir hynny. Arglȣydes heb y pendaran dyuet da ydennȣeist dy uab. Pryderi. Agoreu y gȣeda arnaȣ pryderi uab pȣyll penn annȣn. Edrychȣch heb yriannon nabo goreu y gȣedo arnaȣ y enȣ ehun. Mae yr enȣ heb y penndaran dyuet. gȣri wallt euryn adodyssom ni arnaȣ ef. Pryderi heb y penndaran uyd y enȣ ef. Yaȣnhaf yȣ hȣnnȣ * heb y pȣyll. Kymryt enȣ ymab y ȣrth y geir adywaȣt yuam pan gauas llaȣen chwedyl y ȣrthaȣ. Ac ar hynny y trigywyt. Teirnon heb ypȣyll duȣ adalo it ueithryn y mab hȣnn hyt yr aȣr honn. Aiaȣn yȣ idaȣ ynteu or byd gȣr mȣyn y dalu itti. Arglȣyd heb y teirnon y wreic ae magȣys ef nyt oes yny byt dyn vȣy y galar no hi yny ol. Jaȣn yȣ idaȣ coffau ymi ac yr wreic honno awnaethom yrdaȣ. Y rof i aduȣ heb ypȣyll tra barhawyfi mi ath gynhalyaf athi ath gyuoeth. tra allȣyf kynnal y meu vy hun. Os ynteu avyd iaȣnach yȣ idaȣ dy gynnal noc ymi. Ac os kyghor gennyt ti hynny achan hynn owyrda. canys megeist ti evo hyt yr aȣr honn. ni ae rodȣn aruaeth att benndarā dyuet ohynn allan. Abydȣch gedymdeithon chwitheu athatmaetheu idaȣ. Kyngor iaȣn heb y paȣb yȣ hȣnnȣ. Ac yna y rodet y mab y penndaran dyuet ac ydymyrrȣys gȣyrda y wlat ygyt ac ef. Ac y kychwynnȣy teirnon tor yf vliant ae gedymdeithon y ryngtaȣ ae wlat ac ae gyuoeth gan garyat allew-

edynyd. ac nyt aeth heb gynnic idaw y tlysseu teccaf ar meirch gorzeu arcwn hoffaf. ac ny mynnwys ef dim. Yno y trigyassant wynteu ar eukyuoeth. ac y magwyt pryderi uab pwyll penn annwn yn amgeledus ual ydoed dylyet yny oed delediwaf gwas atheckaf achwplaf o bop camp da oc aoed yny deyrnas. Velly y treulassant blwydyn ablwydyned yny doeth teruyn ar hoedyl pwyll penn annwn ac y bu uarw. Ac y gwledychwys ynteu pryderi seith cantref *dyuet* yn llwydyannus garedic gan y gyuoeth *a chan pa*wb yny gylch. ac ynol hynny y kynydwys *trichan*tref ystrat tywi. aphedwar cantref kered*igya*wn. ac y gelwir y rei hynny seith gantref seissyllwch. Ac ar y kynnyd hwnnw y bu ef pryderi uab pwyll penn annwn yny doeth yny vryt wreicka. Sef gwreic a vynnawd kicua verch wynn gohoywd uab gloywd wallt lydan. uab casnar wledic odylyedogyon yr ynys honn. Ac uelly y teruyna y geing honn or mabynnogyon.

# Branwen, daughter of Llyr.

## Nyma yr eil geinc or mabinogi.

BEndigeit vran vab Llyr a oed vrenhin coronawc ar yr ynys honn. ac arderchawc *ogoron* lun*dein*. A phrynhawngweith yd oed yn hardlech yn ardudwy ynllys idaw. ac yn eisted yd*oedynt ar garrec hardlech uch penn y weilgi. a manawydan uab llyr y vrawt ygyt ac ef. a deu vroder un uam ac ef. nissyen ac efnissyen. agwyrda yam hynny ual y gwedei ygkylch brenhin. Y deu uroder vnuam ac ef meibon oedynt y eurosswyd oeuam ynteu penardim uerch ueli uabmynogan. ar neill or gweission hynny gwas da oed. ef a barei dangneued y rwng ydeulu pan vydynt lidyawckaf. sef oed hwnnw nissyen. Y llall a barei ymlad rwng ydeu uroder pan uei uwyhaf ydymgerynt. ac ual yd oedynt yn eisted uelly wynt awelynt teir llong ar dec yndyuot o deheu iwerdon. ac ynkyrchu parth ac attunt. a cherdet rugyl ebrwyd gantunt. Y gwynt yn eu hol ac yn eunessau ynebrwyd attunt. Mi awelaf longeu racco heb y brenhin ac yn dyuot ynebrwyd parth ar tir. ac erchwch y wyr y llys wiscaw ymdanunt. amynet y edrych pauedwl yw yr eidunt. Y gwyr

awiſcoys ymdanunt. ac aneſſayſſant attunt y waeret. goedy goelet y llongeu o agos diheu oed gantunt nawelſynt llongeu gyweiryach y hanſaod noc oynt. arwydon tec goedus o bali aoed arnunt. Ac ar hynny nachaf un or llongeu yn raculaenu rac y rei ereill. ac y goelynt dyrchauael taryan yn vch no bord y llong. aſoch ydaryan y uynyd yn aroyd tangneued. ac y neſſawys y goyr attunt ual yd ymglywynt ymdidan. Bord badeu allan awnaethant oynteu aneſſav parth ar tir. achyfarch goell yr brenhin. Y brenhin ae clywei wynteu or lle yd oed ar garrec uchel uch eu penn. Duo arodho da yoch heb ef a graeſſao orthyoch. Pieu y niuer llongeu hynn. aphoy yſſyd bennaf arnunt oy. argloyd heb oynt ymae yma matholoch brenhin Iwerdon. ac ef bieu y llongeu. Beth heb y brenhin a uynnei ef. a vynn ef. dyuot yr tir. Na vynn argloyd heb oynt negeſſaol yo orthyt ti onyt y neges ageiff. Py ryo neges yo yr eidao ef heb y brenhin. Mynnu ymgyfathrachu athydi argloyd heb oynt. y erchi branwen uerch lyr y doeth ef. Ac os da gennyt ti ef auynn ymroymao ynys y kedyrn ac iwerdon ygyt ual y bydynt gadarnach. Je heb ynteu doet yr tir. a chynghor agymeron ninheu amhynny. Yr atteb honno aaeth attao ef. Minneu a af yn * llawen heb ef. Af adoeth yrtir. a llawen uuoyt orthao. adygyuor maor avu yny llys ynos hōno y rong y niueroed ef aniueroed y llys. Yny lle drannoeth kymryt kyngor. Sef agahat yny kynghor honno rodi branwen y uatholoch. a honno oed dryded prif rieni yn yr ynys hoñ. teckaf

morwyn yny byt oed. agwneuthur oet yn aberffraw ygyfcu genthi. ac odyno ygychwynnu. ac ykychwynnaffant yniueroed hynny parth ac ac aberffraw. Matholwch ae niueroed yny llongeu. Bendigeituran ae niueroed ynteu ar tir yny doethant hyt yn aberffraw. Yn aberffraw dechreu y wled ac eifted. Sef ual ydeiftedaffant. brenhin ynys y kedyrn. a manawydan uab llyr or neillparth. a matholwch orparth arall. a brannwen uerch lyr gyt ac ynteu. Nyt ymywn ty ydoedynt namyn ymywn palleu. nyt eyngaffei vendigeituran eiryoet mywn ty. ar gyuedach adechreuaffant. Dilit ygyuedach awnaethant. ac ymdidan. Aphan welffant bot ynwell udunt kymrut hun no dilit kyuedach ygyfcu ydaethant. Ar nos honno y kyfcwys matholwch abrannwen ygyt. athrannoeth kyuodi aorugant pawb oniuer yllys. arfwydwyr adechreuaffant ymaruar am rannyat y meirch ar gweiffon. ac eu rannu awnaethant ympob kyueir hyt ymor. ac ar hynny dydgweith nachaf efnyffyn gwr an hagneuedus adywedaffam ni uchot yndywannu y letty meirch matholwch. a gofyn a wnaeth pioed y meirch. Meirch matholwch brenhin iwerdō yw yrei hynn heb wy. Beth awnant hwy yma heb ef. Yma ymae brenhin iwerdon. ac yr gyfcwys gan vrannwen dy whaer. ae ueirch yw y rei hynn. ae uelly y gwnaethant wy am vorwyn kyftal a honno. ac ynchwaer y minneu. y rodi heb vygkennyat i. ny ellynt wy tremic vwy arnaf i no hwnnw heb ef. ac yn hynny gwan y dan ymeirch. athorri y gwefleu wrth y danned udunt ar clufteu wrth ypen-

neu. ar raôn ôrth y keuyn. ar ny chaei graf ar yr amranneu. y lladei ôrth yr aſcôrn. a gôneuthur anfuryf ar y meirch uelly. Hyt nat oed rym aellit armeirch. Y chôedyl adoeth att uatholôch. Sef ual ydoeth. dywedut anffuruaô y veirch ac eullygru hyt nat oed un môynant * aellit o honunt. Je arglôyd heb yr vn dywaratwydaô a ônaethpôyt. a hynny auynnir y wneuthur ytti. Dioer eres yô gennyf os vyggôaradwydaô avynnynt. rodi morôyn gyſtal kyurd kyn annôylet gan y chenedyl ac arodyſſant ym. arglôyd heb un arall ti awely dangos mae ef. Ac nyt oes itt awnelych namyn kyrchu dy longeu. ac ar hynny arouun ylongeu awnaeth ef. Y chôedyl adoeth at vendigeituran bot matholôch ynadaô yllys heb ovyn kenyat. a chennadeu aaeth y ouyn idaô paham oed hynny. Sef kennadeu aaeth. Jdic uab anaraôc. ac eueyd hir y gôyr hynny ae gordiwedaôd ac aovynnaſſant idaô pa darpar oed yr eidaô. a pha achaôs yd oed yn mynet ymeith. Dioer heb ynteu pei yſgôypôn ny doôn yma. Gôbyl waratôyd ageueis. ac nyd*uc* neb kyrch waeth noc adugum i yma. aryuedaôt rygynneryô ami. Beth yô hynny heb ôynt. Rodi brannwen uerch lyr ym yn tryded prif rieni yr ynys honn. Ac yn uerch y vrenhin ynys ykedyrn achyſcu genthi. agôedy hynny vyggôaradôydaw. aryued oed gennyf nat kynn rodi morôyn gyſtal ahonno ym y gôneit y gôaratwyd aônelit ym. Dioer arglôyd nyt ouod y neb a vedei yllys heb ôynt na neb oe gyghor ygônaethpôyt y gôaratwyd hônnô ytti. a chyt bo gôaratwyd gennyt ti hynny. môy yô gan

uendigeituran. no chennyt ti y tremic hównó ar góare. Je heb ef mi atebygaf. ac eiſſoes ny eill ef vy niwaratwydaó i ohynny. Y góyr hynny aymchoelaſſant ar atteb hwnnó parth ar lle yd oed vendigeituran. amenegi idaó yr atteb arodaſſei uatholóch. Je heb ynteu nyt oes ymwaret oe vynet ef ynanygneuedus ac nys gadón. Je arglóyd heb óy anuon ettwa gennadeu ynyol. anuonaf heb ef. kyuodóch vanaóydan uab lly̑r. ac eueyd hir. ac unic gleó yſcóyd. ac eóch yny ol heb ef amenegóch idaó. ef ageiff march iach am bop un or alygróyt. Ac ygyt ahynny ef ageiff ynwynabwarth idaó llatheu aryant auo kyvref achyhyt ac ef ehun. a chlaór eur kyflet ae wyneb. A menegóch idaó py ryó ór awnaeth hy̑ny. aphanyó om anuod inneu y gónaethpóyt hynny. ac ymae braót un uam ami awnaeth hynny.* Ac nat haód gennyf ynheu nae lad ef nae diuetha. adoet yymwelet ami heb ef. ami awnaf y dangneued aryllun y mynno ehun. Y kennadeu aaethant ar ol matholóch. ac auanagaſſant idaó yr ymadraód hównó yngaredic. ac ef ae góarandewis. awyr heb ef ni agymerón gynghor. Efaaeth ynygynghor. ſef kynghor auedylyaſſant. Os górthot hynny awnelynt bot yndebygach gantunt kael kewilid auei vóy. no chael iaón avei gymeint. adiſkynnu awnaeth ar gymryt hynny. ac yr llys ydoethant yndangneuedus. Achóeiryaó y pebyllleu arpalleu awnaethant udunt. ar ureint kyweirdeb neuad amynet y vóyta. ac ual y dechreuaſſynt eiſted ardechreu y wled yd eiſtedaſſant yna. adechreu ymdidan aónaeth matholóch

abendigeituran. ac nachaf yn ardiaȣc gan vendigeit uran yn ymdidan ac yn drist. am y ȣarth agaei gan vatholȣch ae lewenyd yn wastat kynno hynny. Amedylyaȣ aorȣc bot ynathrist gan yr unben vychanet agaȣssei o iaȣn am ygam. a ȣr heb y bendigeituran nyt ȣyt gystal ymdidanȣr heno ac un nos. ac os yr bychenet gennyt ti dyiaȣn. ti agey y chwanegu *it ȣrth* dyvynnu dyhun. ac auorȣy talu dy ueirch itt. arglȣyd heb ef duȣ adalo itt. mi adelediwaf dy iaȣn heuyt it heb y bendigeiturā. Mi arodaf it peir. achynnedyf ypeir yȣ. ygȣr alader hediȣ it. y vȣrȣ yny peir. ac erbyn auorȣy y vot yngystal ac y bu orȣeu. eithyr nabyd llyueryd gantaȣ. adiolȣch a wnaeth ynteu hynny. a diruaȣr lewenyd agymerth yndaȣ orachaȣs hȣnnȣ. Athrannoeth ytalȣyt y ueirch idaȣ tra barhaaȣd meirch dof. ac odyna y kyrchȣyt ac ef kymȣt arall ac y talȣyt ebolyon idaȣ. yny uu gȣbyl idaȣ ydal. ac ȣrth hynny ydodet ar y kymmȣt hȣnnȣ ohynny allan tal ebolyon. ar eil nos eisted ygyt aȣnaethant. arglȣyd heb ymatholȣch pandoeth ytti ypeir arodeist ymi. Ef adoeth ym heb ef ygan ȣr auu yth wlat ti. ac ny ȣnn nabo yno ykaffo. Pȣy oed hȣnnȣ heb ef. Nassar Naesgyfneȣit heb ef. a hȣnnȣ adoeth yma o Iwerdon achymideu kymeinuoll y wreic ygyt ac ef. ac adiangyssant orty haearn yn iwerdon. pan wnaethpȣyt yn wynnyas yn eu kylch. ac ydihangyssant odyno. ac eres yȣ gennyf i ony wdost ti dim y ȣrth hynny. Ȣȣn arglȣyd heb ef. * achymeint ac aȣnn mi aemanagaf yti. Ynhela yd oedȣn yn iwerdon dydgȣeith ar

beñ gorſed aoed uch penllynn yn Iwerdon. a llynn ypeir ygelwit. ami awelôn gôr melyngoch maôr yndyuot or llyñ apheir ar y gefyn. agôr athrugar maôr adrycweith auorles arnaô oed. agôreic yny ol. ac ot oed vaôr ef môy dôyweith oed ywreic noc ef. achyrchu attaf awnaethant achyfuarch gôell im. Je heb ymi pagerdet yſſyd arnaôch chôi. llyna y ryô gerdet arglôyd yſſyd arnam ni heb ef. Y wreic honn ympenn pythewnos amis y byd beichogi idi. ar mab aaner yna or torllôyth hôñô. ar benn y pytheônos armis y byd gôr ymlad. llaôn aruaôc. y kymereis ynneu arnaf y goſſymdeithaô ôyntôy. ac y buant vlôydyn ygyt ami. Yny vlôydyn y keueis yndiwarauun ôynt. Ohyny allan y gôarauunôyt im. achyn penn y pedwyrryd mis ôynt ehun ynperi eu hatgaſſau ac aghynnôys yny wlat yngôneuthur ſarhaedeu. ac yneighaô ac yn gouutyaô gôyrda a gôraged da. O hynny allan ydygyuorres vygkyuoeth am vympen y erchi im ymvadeu ac ôynt. arodi deôis im ae vyngkyuoeth aeôynt. Y dodeis ynneu ar gynghor vyggwlat beth awnelit amdanunt. Nyt eynt hôy oebod nyt oed reit udunt ôynteu oehanuod herwyd ymlad vynet. Ac yna yny kyuyng gynghor ykaôſſant gôneuthur yſtauell haearn oll. agôedy bot yn baraôt yr yſtauell. Dyuynnu aoed oof yn Iwerdon yno. or aoed oberchen geueyl a myrthôl. apheri goſſot kyuuch achrib yr yſtauell olo. apheri gôaſſanaethu yndiwall o vwyt allyn arnunt arywreic ae gôr ae phlant. Aphanwybuôyt eu medôi ôynteu ydechreuit kymyſcu ytan ar glo am benn yr yſtauell.

achóythu ymegineu. yny vyd yty ynburwenn am eupenn. ac yna y bu ykynghor gantunt ymperued llaór yr ystauell. ac yd arhoes ef yny vyd y pleit hayarn yn wenn. Ac rac diruaór wres ykyrchóys y pleit ae yscóyd ae tharaó gantaó allan. ac yn yol ynteu ywreic. aneb nydihengis odyno namyn ef ae wreic. Ac yna omtebygu i arglóyd heb y matholóch órth vendigeituran ydoeth ef dróod attat ti. Yna dioer heb ynteu ydoeth yma ac yrodes y peir y minheu. Padeló arglóyd yd erbynneist ti óyntóy. Eu rannu * ympob lle yny kyuoeth. ac ymaent yn lluossaóc ac yndyrchauel ympob lle. ac yn kadarnhau yny uann y bont owyr ac arueu gorreu awelas neb. Dilit ymdidan awnaethant ynos honno tra uuda gantunt acherd achyuedach. aphan welsant vot yn llessach udunt uynet y gyscu noc eisted auei hóy ygyscu ydaethant. ac uelly ytreulassant ywled honno tróy digrifóch Ac ynniwed hynny y kychwynnóys matholóch abrannwengyt ac ef parth ac iwerdon. ahynny oaber menei ykychwynnassant teir llong ardec acydoethant hyt yn iwerdon. Yniwerdō diruaór lewenyd auu órthunt. Dydoei ór maór na górreicda yn iwerdon yymwelet abrannwen ny rodei hi ae cae ae modróy ae teyrndlós cadwedic idaó auei arbennic y welet ynmynet ymeith. ac ymysc hynny y vlóydyn honno aduc hi ynglotuaór. ahóyl deledió aduc hi o glot achedymdeithon. a beichogi adamweinóys idi ygael yn hynny. Agóedy treulaó yr amseroed dylyedus mab aanet idi. Sef enó adodet arnaó góern uab matholóch. Rodi ymab aruaeth

awnaethpŏyt yr unlle gorreu ywyr ynIwerdon. a hynny ynyr eil ulŏydyn llyma ymodŏrd yn iwerdon am ygŏaratwyd agaŏsſei vatholŏch ygkymry. arſom aŏnathoedit idaŏ amy veirch. a hynny y urodyr maeth ar rei neſſaf gantaŏ ynlliwaŏ idaŏ hynny heb ygelu. ac nachaf ydygyuor yn iwerdō hyt nat oed lonyd idaŏ onychaei dial yſarhaet. Sef dial awnaethant gyrru brannŏen o vn yſtauell ac ef. ae chymell y bobi yny llys. a pheri yr kigyd gŏedy y bei yn dryllyaŏ kic dyuot idi atharaŏ bonclust arnei beunyd. Ac uelly y gŏnaethpŏyt y phoen. Je arglŏyd heb y wyr ŏrth uatholŏch. parweithon wahard y llongeu ar yſgraffeu ar corygeu ual nat el neb y gymry. ac adel yma o gymry carchara ŏynt hyt nat elont drracheuyn rac gŏybot hynn. ac ar hynny ydiſgynnyſſant blŏynyded nyt llei no their y buant uelly. ac ynhynny meithryn ederyn drytwen aŏnaeth hitheu ar dal y noe gyt ahi adyſcu ieith idi. a menegi yr ederyn y ryŏ ŏr oed ybraŏt. a dŏyn llythyr y poeneu * ar amarch aoed arnei hitheu. ar *llythyr* arŏymŏyt am von eſgyll yr ederyn. ae anuon parth achymry. ar ederyn adoeth yrynys honn. Sef lle ykauas uendigeituran ygkaerſeint yn aruon yndadleu idaŏ dydgŏeith. adiſgynnu ar y yſcŏyd agarŏhau y phluf yny arganuuwyt yllythyr. ac adnabot meithryn yrederyn ygkyuanned. Ac yna kymryt yllythyr ae edrych. a phandarllewyt y llythyr doluryaŏ aŏnaeth bendigeituran o glybot y poen aoed ar vranwen adechreu or lle hŏnnŏ anuon kenadeu ydygyforyaŏ yr ynys honn ygyt. Ac yna y peris ef dyuot llŏyrwys pedeirgŏlat aſeith ugeint

hyt attaw. Ac ehun kwynaw wrth hynny bot y poen aoed ar y chwaer. Ac yna kymryt kynghor. Sef kynghor agahat kyrchu iwerdon ac adaw seithwyr yntywyssogyon yma. A chradawc uab bran yn bennaf. ac eu seith marchawc. ynedeirnon yd edewit y gwyr hynny. Ac oachaws hynny ydodet seith marchawc ar ydref. Sef seithwyr oedynt. Gradawc uab bran. Ac eueyd hir. Ac vnic glew yscwyd. Ac idic uab anarawc wallt grwn. A ffodor uab eruyll. Ac wlch minascwrn. Allashar uab Llaesar Llaesgygwyd. Aphen*daran* dyuet ynwas ieuanc gyt ac wy. Y seith hynny a dricywys yn seith kynweissat ysynnyaw ar yr ynys honn. Achradawc uab bran ynbennaf kynnweissyat arnunt. Bendigeituran ar niuer adywedassam ni a hwylyassant parth ac iwerdon. Ac nyt oed uawr y weilgi yna yueis ydaeth ef. Nyt oed namyn dwy auon. Ni ac archan ygelwit. Agwedy hynny yd amylhawys yweilgi y teyrnassoed. Ac yna ykerdwys ef ac aoed ogerd arwest ar y geuyn ehun achyrchu tir iwerdon. A meicheit matholwch oed ar lan y weilgi. wynt adoethant att vatholwch. Arglwyd heb wy henpych gwell. Duw arodo da ywch heb ef. achwedleu ygennwch. arglwyd heb wy. mae gennyn ni chwedleu enryued. coet rywelsom ar yweilgi. yny lle ny welsam eiryoet vnprenn. Llyna beth eres heb ef. Awel(ew)*ch* chwi dim namyn hynny. Gwelem arglwyd heb wy mynydmawr geir llaw *y* coet. Ahwnnw ar g*erdet.* Ac esgeir aruchel ar ymynyd. Allyn *o pob parth or* esgeir. Ar coet ar mynyd aphoppeth ohynny oll *ar* gerdet. Je heb ynteu nyt oes neb yma awypo (dim)

yorth hynny o nys goyr branwen go(uynnoch idi)* kennadeu aaeth att uranwen. Arglöydes heb oy beth debygy di yo hynny. Goyr ynys ykedyrn yndyuot drodad o glybot vympoen i amhamarch. Beth yo y coet awelat ar y mor heb oy. Goernenen Llogeu ahoylbrenni heb hi. Och heb oy beth oed y mynyd awelit gan ystlys y Llongeu. Bendigeituran vymraot i heb hi oed honno yndyuot y ueis. nyt oed log y kyghanei ef yndi. Beth oed yr esgeir aruchel. ar Llynn obop parth yr esgeir. Ef heb hi ynedrych ar yrynys honn Llidiaoc yo. Y deu lygat ef opobparth ydroyn yo y doy lynn o bopparth yr esceir. Ac yna dygyuor holl wyr ymlad iwerdon awnaethpöyt ygyt. ar holl uorbennyd awnaethpöyt yn gyflym. Achyngor a gymeröyt. Arglöyd heb y wyrda orth vatholoch nyt oes gynghor namyn kiliao droy linon auon aoed yn iwerdon. Agadu Llinon yrot ac ef. Athorri y bont ysfyd ar yr avon. Ameinfugyn ysfyd yggöaelaöt yr auon. ny eill nallong na Llesfyr arnei. Wynt agilyasfant droy yr auon ac a torrasfant y pont.

Bendigeituran adoeth yr tir allyghes ygyt ac ef parth aglann yr auon. Arglöyd heb y wyrda ti aödost kynnedyf yr auon. ny eill neb vynet droydi. nyt oes bont arnei hitheu. mae dy gynghor am bont heb oy. Nyt oes heb ynteu. namyn avo penn bit bont. Miui auydaf bont heb ef. Ac yna gyntaf y dywetpöyt y geir hönö ac ydiaerebir ettwa ohonao. Ac yna göedy gorwed ohonao ef ar traös yr auon. y byrywyt clöyteu arnao ef. Ac ydaeth yluoed ef arydraös dröod. Ar hynny gyt ac ykuodes ef. Llyma gennadeu matholöch

yndyuot attaw. ac ynkyuarch gwell idaw. ac yny annerch ygan uathlwch ygyuathrachwr. ac yn menegi oe vodef na haedei arnaw namyn da. Ac ymae mathlwch yn rodi brenhinyaeth iwerdon ywern uab mathlwch dynei ditheu uab dychwaer. ac yny estynnu yth wyd di. ynlle ycam arcodyant awnaethpwyt y vrannwen. ac yny lle ymynnych ditheu. ae yma ae ynynys ykedyrn gossymdeitha uathlwch. Je heb ynteu vendigeit uran ony allafi vy hun cael y vrenhinyaeth. ac atuyd ysykymeraf gyghor am ych kennadwri chwi. O hynn hyt pandel amgenn ny cheffwch y gennyfi atteb. Je heb wynteu. yr atteb gorreu agaffom ninneu attat ti ni adown ac ef. ac aro di-*theu yn kennadwri ninheu. arhoaf heb ef a dowch yn ebrwyd. Ykennadeu agyrchassant racdu ac att vathlwch ydoethant~~hant~~. Arglwyd heb wykyweira atteb auo gwell att vendigeituran. nywarandawei dim or atteb aaeth ygennym ni attaw. Hawyr heb ymathlwch mae ychkynghor chwi. Arglwyd heb wy nyt oes itt gyghor namyn vn. nyt eigwys ef y mywn ty eiryoet heb wy. Gwna ty heb wynt y geingho ef agwyr ynys y kedyrn yny neillparth yrty. athitheu athlu yny parth arall. adyro dy urenhinyaeth yny ewyllys agwrha idaw. Ac oenryded gweuthur y ty heb wynt. peth nys kauas eiryoet ty y geinghei yndaw. ef a tangneuedha athi. Arkennadeu aaethant ar gennadwri honno gantunt att uendigeit uran. Ac ynteu agymerth kynghor. Sef agauas yny gynghor kymryt hynny. a thrwy gŷghor branwen uu hynny oll. ac rac llygru ywlat oed genti hitheu hynny. Ydang-

neued honno agyȣeirȣyt ar ty aateilȣyt ynuaȣr ac ynbraff. ac yſtryȣ awnaeth ygȣydyl. ſef yſtryȣ a wnaethant dodi gȣanas obop parth ~~ybopparth~~ y bop colouyn o cant colofyn aoed yny ty. adodi boly croen ar bop gȣanas. agȣr aruaȣc ympob un ohonunt. Sef aȣnaeth efnyſſyen dyuot ymblaen llu ynys y kedyrn ymyȣn ac edrych golygon orwyllt antrugaraȣc ar hyt yty. ac arganuot y bolyeu crȣyn a wnaeth arhyt ypyſt. Beth yſſyd yny boly hȣnn heb ef ȣrth un orgȣydyl. blaȣt eneit heb ef. Sef awnaeth ynteu y deimlaȣ hyt pangauaſ y benn. agȣaſcu y benn yny glyȣ y vyſſed yn ymanodi yny vreithell drȣy yr aſcȣrn. ac adaȣ hȣnnȣ. adodi y laȣ ar vn arall agouyn beth yſſyd yma. blaȣt medei y gȣydyl. Sef awnaey ynteu yr un gȣare aphaȣb ohonunt hyt nat edewis ef ȣr byȣ orholl wyr ordeucan ȣr eithyr un. adyuot at hȣnnȣ agouyn beth yſſyd yma. blaȣt eneit heb y gȣydyl. Sef awnaeth ynteu y deimlaȣ ef. yny gauas y benn. ac ual y gȣaſcaſſei benneu yrei ereill gȣaſcu pennhȣnnȣ. ſef yclyȣei arueu am benn hȣnnȣ. nytymedewis ef ahȣnnȣ yny lladaȣd. Ac yna canu eglyn. Yſſit yny boly hȣnn amryȣ vlaȣt. keimeit kynniuyeit diſgynneit yn trin rac kytwyr cat baraȣt. Ac ar hynny ydothyȣ yniueroed yrty. ac y * doeth gȣyr o ynys Iwerdon yrty or neillparth. a gȣyr o ynys y kedyrn or parth arall. ac yngyn ebrȣydet ac yd eiſtedaſſant y bu duundeb y ryngtunt. Ac yd eſtynnȣyt y urenhinyaeth yr mab. Ac yna gȣedy daruot y dangued galȣ o vendigeituran y mab attaȣ. ygan vendigeituran y kyrchaȣd y mab att uanyȣ-

ydan. A phaob or ae goelei yny garu. ygan uanaoydan y gelwis nyffyen uab euroffwyd y mab attao. Y mab aaeth attao yndiryon. Paham heb yr efnyffyn. na dao uy nei uab vychwaer attafi. kynny bei urenhin ar iwerdon da oed gennyfi ymdirioni ar mab. Aet ynllaoen heb y bendigeituran. Y mab aaeth attao ynllaoen. Y duo ydygaf vyngkyffes heb ynteu yny uedol. ys anhebic a gyflauan gan y tyloyth y goneuthur aonafi yr aorhoñ. Achyuodi y uynyd achymryt y mab heroyd ydraet. Ac heb ohir kynn kael odyn yny ty gauael arnao yny want y mab ynwyfc y benn yny gynneu tan. Aphanwelas branwenn y mab yn boeth yny tan. Hi agyngytywys boro neit yny tan orlle ydoed yn eifted rong ydeu uroder. A chael o uendigeituran hi yny neillao. Ae taryan yny llao arall. Ac yna ymgyuoc o baop ar hyt y ty. Allyna y godord moyhaf auu gan niuer unty. paob ynkymryt y arueu. Ac yna y dywaot Mordoyd tyllyon. Gwern gongoch uioch uordwyt tyllyon. Ac yny aeth paop ym penn y arueu. y kynhellis bendigeituran vranwen y rong y daryan aeyfcoyd. Ac yna y dechreuis ygoydyl kynneu tan dan ypeir dateni. Ac yna ybyryot y kalaned ynypeir. yny uei ynllaon. Ac ykyuodynt drannoeth yn wyr ymlad yn gyftal achynt eithyr na ellynt dywedut. Ac yna pan welas efnyffyn y kalaned heb eni yn vn lle owyr ynys y kedyrn ydywaot yny uedol. Oi aduo heb ef goae vi vymot yn achaos yr wydwic honn o wyr ynys ykedyrn. Ameuyl ym heb ef ony cheiffafi waret rac hynn. Ac ymedyryao ymplith calaned y goydyl. A dyuot deu

wydel uonllŏm idaŏ ae vŏrŏ yny peir ynrith gŏydel. Ymeſtynnu idaŏ ynteu ynypeir yny tyr ypeir yn pedwardryll. ac yny tyr y * gallon ynteu. ac o hynny ybu y meint gorruot auu y wyr ynys ykedyrn. Ny bu orruot ohŷny eithyr dianc ſeithwyr abrathu bendigeituran yny troet agŏenŏynwaeŏ. Sef ſeith wyr a dihengis. Pryderi. Manaŏydan. Gliuieri. Eil taran. Talyeſſin. ac ynaŏc grudyeu uab muryel. Heilyn uab gŏynn hen. ac yna yperis bendigeituran llad ybenn. achymerŏch chŏi ypenn heb ef adygŏch hyt y gŏynurynn yn llundein. a chledŏch yno ef ae wyneb ar freinc. achŏi avydŏch ar yfforrd ynhir. yn hardlech y bydŏch ſeith mlyned arginyaŏ. ac adar riannon yncanu yŏch. arpenn auyd kyſtal gennŏch y gedymdeithas ac ybu oreu gennŏch pan uu arnaf i eiryoet. ac yggŏaleſ ympenuro ybydŏch pedwarugeint mlyned. ac yny agororch y drŏs parth ac aber henueleu y tu acherynŏ y gellŏch uot yno. ar penn yndilŏgyr gennŏch. ac orpann agororch y drŏs hŏnnŏ ny ellŏch uot yno. Kyrchŏch lundein y gladu y penn. achyrchŏch chŏi ragoch drŏod. ac yna y llas ybenn ef. ac ykychŏynnaſſant ar penn gantunt drŏod y ſeithwyr hynny. abranwen ynŏythuet. Ac y aber alaŏ yntal ebolyon y doethant yr tir. ac yno eiſted awnaethant agorffowys. Edrych oheni hitheu ar iwerdon. ac ar ynys ykedyrn awelei ohonunt. Oi auab duŏ heb hi gŏae ui omganedigaeth. yſda dŏy ynys adiffeithŏyt omachaŏs i. adodi ucheneit uaŏr athorri y challon ar hynny. agŏneuthur bed pedryual idi ae chladu yno ygglan alaŏ. ac arhynny kerdet aŏnaeth y ſeithwyr

parth a hardlech ar penn gantunt. Val ybydant ynkerdet. Llyma gyweithyd ynkyuaruot acỏynt owyr agỏraged. Aoes gennỏch chỏi chỏedleu heb ymanaỏydan. Nac oes heb ỏynt onyt gorefgyn ogaffwallaỏn uab beli ynys y kedyrn. Ae vot ynvrenhin coronaỏc ynllundein. Pa daruu heb ỏynteu ygaradaỏc vab bran. ar feith wyr aedeỏit ygyt ac ef ynyr ynys honn. Dyuot Kaffwallaỏn ameupenn allad y chwegỏyr. Athorri o honaỏ ynteu gradaỏc y gallono annyuyget. Am welet y cledyf yn llad y wyr. ac nawydyat pỏy aelladei. Kaffwallaỏn ar daroed idaỏwifcaỏ llen hut ymdanaỏ. * Ac ny welei neb ef ynllad y gỏyr. namyn ycledyf. Ny mynnei gaffwallaỏn ylad ynteu ynei uab y geuynderỏ oed. A hỏnnỏ uu ytrydyd dyn a torres y gallon o niuyget. Penndarar dyuet aoed ynwas ieuanc gyt ar feithwyr adihengis yr coet heb ỏynt. Ac yna y kyrchaffant ỏynteu hardlech ac y dechreuaffant eifted. Ac ydechreuỏyt ymdiỏallu o vỏyt allynn. Ac ydechreuaffant ỏynteu vỏytta ac yuet. Dyuot tri ederyn adechreu canu udunt ryỏ gerd. Ac oc aglyỏffynt o gerd. diuỏyn oed pob un y ỏrthi hi. A phell dremynt oed udunt eu gỏelet uch penn y weilgi allan. Achyn amlycket oed udunt ỏy achyn bydynt gyt ac ỏy. Ac arhynny o ginyaỏ y buant feith mlyned. Ac ympenn yfeithuet ulỏydyn y kychỏynnaffant parth a gỏalas ympenuro. Ac yno ydoed udunt lle tec brenhineid uch benn y weilgi. Ac yneuad uaỏr aoed yno udunt. ac yr neuad ykyrchyffant. Ae deudrỏs aoed ynagoret. ar trydyd drỏs yngayat yr hỏm tu a chernyỏ. weldi racco heb y manaỏydan y drỏf

nydylyon ni y agorr. Ar nos honno y buant yno yndiwall. ac yndigrif gantunt. Ac yr awelsynt o vóyt yny góyd. ac yr aglywyf ehun. ny doey ygof udunt hóydim. nac o hynny *nac* o alar yny byt. Ac yno ytreulyssant ypedwar ugeint mlyned hyt na wybuant hóy eiryoet. dóyn yspeit digrifach nahyfrydach no honno. Nyt oed annesmóythach nac adnabot ovn ar y gilyd yuot yn hynny o amser no phan doethant yno. Nyt oed annessmóythach gantunt óynteu gytuot ypenn yna. no phan uuassei vendigeit uran ynvyó gyt ac óynt. Ac oachaós y pedwar ugeint mlyned hynny ygelóit. Yspydaót urdaól benn yspydaót vrannóen a matholóch oed yr honn yd aethpóyt y iwerdon. Sef aónaeth heilyn uab gwynn dydgóeith. Meuyl ar uymarafi heb ef onyt agorraf ydrós. y wybot aegóir adywedir am hynny. Agorr ydrós aónaeth. ac edrych ar gernyó. ac ar aber henuelen. Aphan edrychóys yd oed yngynhyspysset gantunt y geniuer collet agollassynt eiryoet. Ar geniuer car a chedymdeith agollassynt. Ar geniuer dróc adathoed udunt achyt bei *yna y kyuarffei ac óynt. Ac yn bennaf ameu harglóyd. Ac or gyuaór honno ny allyssant óy orfowys. namyn kychóynnu arpenn parth allundein. Pa hyt bynnac y bydynt ar yfford óynt a doethant hyt yn llundein. Ac agladassant ypenn yny gwynurynn. A hónnó uu y trydyd matcud pancudywyt. Ar trydyd anuat datcud pandatcudywyt. Kany doey ormes byth dróy vor yr ynys honn trauei y penn yny cud hónnó. A hynny adyweit y kyfarwydyt eukyfranc hóy. y góyr agychwynnóys o iwerdon yó

hónnó. Yniwerdon nyt edeóit dyn byó namyn pump góraged beichaóc y myón gogof yn diffeithóch iwerdon. Ar pump góraged hynny ynyr un kyfnot aanet udunt pumpmeib. Ar pumpmeib hynny auagaffant hyt panuuant weiffon maór. Ac yny uedylyaffant amwraged. Ac yny uu damunet gantunt eukaffael. Ac yna kyfcu pob un laó heb laó gan uam y gilyd. A góledychu ywlat ae chyuannhedu. ae rannu y ryngtunt ell pump. Ac o achaós y rannyat hónnó y gelóir ettwa pump rann Iwerdon. Ac edrych y wlat awnaethant ford y buaffei yr aeruaeu. achael eur ac aryant yny yttoedynt yn gyuoethaóc. Allyna ual y teruyna ygeinc honn or mabinogi. o achaós paluaót branóen. yr honn a vu tryded anuat paluaót ynyr ynys honn. Ac o achas yfpadaót bran panaeth niuer deg wlat afeith ugeint y iwerdon ydial paluaót branóen. Ac am yginyaó ynhardlech feith mlyned. Ac am ganyat adar riannon. Ac ar yfpydaót benn pedwar ugeint mlyned.

# Manawyddan, son of Llyr.

## Nyma y dryded geinc or mabinogi

Gwedydaruot yr ſeithwyr adywedaſſam ni uchot cladu penn bendigeituran yny gȣynvryn yn Llundein. ae wyneb ar freinc. edrych aȣnaeth manaȣydan ar ydref yn Llundein ac ar ygedymdeithon adodi ucheneit uaȣr. a chymryt diruaȣr alar ahiraeth ynda ȣ. Oi aduȣ hollgyuoethawc gȣaeui heb ef. nyt oes neb heb le idaȣ heno namyn mi. Arglȣyd heb y pryderi. na uit gyndrymhet genhyt ahynny. dy geuynderȣ yſſyd urenhin yn ynys ykedyrn. achyn gȣnel gameu it heb ef. ny buoſt ti haȣlȣr tir adayar eiryoet. try*dyd Lledyf unbenn ȣyt. Je heb ef kyt boet keuynderȣ y mi ygȣr hȣnnȣ. goathriſt yȣ gennyf gȣelet neb yn Lle bendigeituran vy mraȣt. ac ny allaf uot ynllaȣen yn unty ac ef. awney ditheu gynghor arall heb y pryderi. Reit oed im ȣrth gynghor heb ef. apha gynghor yȣ hȣnnȣ. Seith gantref ry edeȣit ymi heb ypryderi a riannon uy mam yſſyd yno. mi arodaf itti honno a medyant yſeith gantref genthi. achynnybei itti o gyuoeth namyn yſeith cantref hynny. nyt oes seith cantref well noc ȣy. Kicua uerch wynn gloyȣ yȣ vyggȣreic ynneu heb ef. achynn enȣ-

edigaeth y kyuoeth y mi. bit y mównant y ti a riannon. aphei mynnvt gyuoeth eiryoet atuyd y kaffut ti hównó. Na uynnaf unbennheb ef. duó adalo it dy gedymdeithas. Y gedymdeithas oreu aallóyf i ytti ybyd os mynny. Mynnaf eneit heb ef duó adalo itt. ami aaf gyt athi y edrych riannon. ac y edrych y kyuoeth. Jaón awney heb ynteu. mi a tebygaf na werendeweiſt eiryot ar ymdidanwreic well no hi. Yr amſer y bu hitheu yny dewred ny bu wreic deledi-wach nohi. ac ettwa ny bydy anuodlaón y phryt. wynt agerdaſſant racdunt. a pha hyt bynnac y bydynt ar yfford wynt adoethant ydyuet. Góled darparedic oed udunt erbyn eu dyuot yn arberth. a riannon a chicua wedy y harlóyaó. Ac yna dechreu kyt eiſted ac ymdidan o uanaóydan a riannon. ac or ymdidan tirioni a wnaeth y vryt ae uedól órthi. a hoffi yny uedól na welſei eiryoet góreic digonach y thecket ae theledióet no hi. Pryderi heb ef mi a vydaf órth a dywedeiſti. Pa dywedóydat oed hównó heb y riannon. arglóydes heb ef bryderi. mi ath roeſſum yn wreic y uanaóydan uab Llyr. a minheu a vydaf órth hynny yn Llaóen heb y riannon. Llaóen yó gennyf inneu heb y manaóydan. a duó adalo yr gór yſſyd yn rodi y minneu y gedymdeithas mor difleis a hynny. Kynn daruot y wled honno y kyſcóyt genthi. ar ny deryó or wled heb y pryderi treulóch chói. a minneu a af y hebrónng vyg górogaeth y gaſſwallaón uab beli hyt yn Lloegyr. aglóyd heb y riannon yg kent * y mae kaſſwallaón. athi aelly treulaó y wled honn. ae aros ynteu auo nes. Minheu ae harhoón heb ef. ar wled

honno a dreulassant. A dechreu a ynaethant kylchaw dyuot ae hela. a chymryt eu digrifwch. ac wrth rodyaw y wlat ny welsynt eiryoet wlat gyuanhedach no hi. na heldir well. nac amylach y mel ae physcawt no hi. Ac yn hynny tyuu kedymdeithas y rygtunt yllpedwar hyt na mynnei yr vn vot heb y gilyd na dyd na nos. ac ym mysc hynny ef a aeth at gasswallawn hyt yn ryt ychen y hebrwng y wrogaeth idaw. a diruawr a uu yny erbyn yno. a diolwch idaw hebrwng y wrogaeth idaw. a gwedy y ymchoelut kymryt eu gwledeu ae hesmwythter a orugant pryderi a manawydan. a dechreu gwled a orugant yn arberth kanys priflys oed. ac o honei y dechreuit pob enryded. a gwedy y bwyta kyntaf y nos honno *tra uei* y gwassanaeth wyr yn bwyta. Kyuodi allan a orugant a chyrchu gorsed arberth a wnaethant yllpedwar ac eu niuer gyt ac wynt. Ac ual y bydant yn eisted uelly. llyma dwryf. a chan ueint y twryf llyma gawat o nywl yn dyuot hyt na chanhoed yr un o honunt hwy y gilyd. ac y nol y nywl llyma yn goleuhau pob lle. A phan edrychyssant y ford y gwelynt y preideu ar anreitheu ar kyuanhed kynno hynny. ny welynt neb ryw dim. na thy. nac aniueil. na mwc. na than. na dyn. na chyuanned eithyr tei yllys ynwac diffeith angkyfanned heb dyn heb *vil* yndunt. Eeu kedymdeithon ehun wedy eu colli heb wybot dim y wrthunt. onyt hwy yll pedwar. Oi ar arglwyd duw heb y manawydan. mae niuer yllys an niuer ninheu eithyr hynn. awn y edrych. dyuot yr neuad a ynaethant nyt oed neb. kyrchu y kastell ar hundy[.ny] welynt neb. Ym medgell. nac ygk[egin] nyt oed

namyn diffeithôch. D[echreu] a wnaethant yllpedwar treul[aô y ôled] a hela a ônaethant. a chymr[yt eu digriu]ôch. a dechreu a wnaeth pob [un o honunt] rodyaô ywlat arkyuoeth y[edrych aôelynt] ae ty. ae kyuanhed. a neb ryô [dim ny wel]ynt eithyr gôydlydnot. A gôed[y treulaô]* eu gôled ac eu darmerth o honunt. dechreu a wnaethant ymborth ar gic hela a phyſcaôt a bydafeu. Ac uelly bôydyn ar eil a treulyſſant yn digrif gantunt. ac yn y diwed diffygyaô a ônaethant. Dioer heb y manaôydan ny bydôn ual hynn. kyrchôn loegyr a cheiſſôn grefft y kaffon yn hymborth. kyrchu lloegyr a orugant. a dyuot hyt yn henfford. a chymrut arnunt gôneuthur kyfrôyeu. A dechreu a wnaeth ef uanaôydan llunyaô corfeu ac eu liwaô ar y wed y gôelſei gan laſar llaeſgygôyd a chalch llaſar. a gôneuthur calch laſar racdaô ual y gônathoed y gôr arall. Ac ôrth hynny y gelôir ettwa calch laſar. am y wneuthur o laſar llaeſgygôyd. ac or gôeith hônnô tra geffit gan uanaôydan. ny phrynit gan gyfrôyyd dros wyneb hennfford na chorof na chyfrôy. ac yny adnabu bop un or kyfrôyydyon yuot ynkolli oe hennill llawer. ac ny phrynit dim gantunt onyt gôedy na cheffit gan uanaôydan. Ac yn hynny ymgynnullaô ygyt o honunt. a duunaô am ylad ef ae gedymdeith. Ac yn hynny rybud a gaôſſont ôynteu. a chymryt kynghor am adaô y dref. Y rof i a duô heb y pryderi ny chynghoraf i adaô y dref. namyn llad y taeogyon racco. Dac ef heb y manaôydan bei ymladem ni ac ôyntôy clot drôc a vydei arnam ac an carcharu a wneit. Yſgôell ynn heb ef kyrchu tref arall y ymoſmeithaô

yndi. Ac yna kyrchu dinas arall awnaethant ell pedwar. Pa geluydyt heb y pryderi a gymerôn ni arnam. Gônaôn taryaneu heb y manaôydan. Aôdom ninneu dim y ôrth hynny heb y pryderi. Ni ae pro-[fôn] heb ynteu. Dechreu gôneuthur [taryan]eu a orugant. ac eullunyaô ar [ôeith ta]ryaneu da awelfynt. A dodi y [lliô a dody]ffynt ar y kyfrôyeu arnunt. [Ar gôeith h]ônnô alôydôys racdunt hyt [na phrynit] taryan ynyrholl dref. onyt [gôedy na ch]effit gantunt hôy. Kyflym [oed eu gôei]th ôynteu a diueffur a ône[ynt ac ue]lly y buant yny dygôydaôd * yô kytdrefwyr racdunt. Ac yny duunaffant argeiffaô eu llad. Rybud a doeth udunt ôynteu. a chlybot bot y gwyr ae bryt ar eu dihenydyaô. Pryderi heb y manaôydan y mae y gôyr hynn ynmynnu an diuetha. Na chymerôn ninheu y gan y taeogeu hynny. aôn ydanunt alladôn ôynt. Nac ef heb ynteu. kaffwallaôn a glywei hynny ae wyr. Areôin vydem. kyrchu tref arall awnaôn. wynt a doethant y dref arall. Pa geluydyt yd aôn ni ôrthi heb y manaôydan. Yr honn y mynnych or awdam ni heb y pryderi. Nac ef heb ynteu gônaôn grydyaeth. ny byd o gallon gan grydyon nac ymlad a ni nac ymwaravun. Ny ôn i dim y ôrth honno heb y pryderi. Mi ae gônn heb y manawydan a mi a dyfcaf itti wniaô. Ac nyt ymyrôn ar gyweiryaô lledyr namyn y prynu ynparaôt a gôneuthur yngôeith o honaô. Ac yna dechreu prynu y cordwal teckaf a gafas yny dref. Ac amgen ledyr no hônnô ny phrynei ef eithyr lledyr gôadneu. A dechreu awnaeth ymgedymdeithaffu ar eurych gorreu yny dref. A pheri

góaegeu yr esgidyeu ac euraó y góaegeu a ſynnyaó ehun ar hynny yny góybu. Ac or achaós hónnó y gelwit ef yndrydyd eurgryd. Tra geffit gantaó ef nac eſgit na hoſſan ny phrynit dim gan gryd ynyr holl dref. Sef awnaeth y crydyon adnabot bot eu hennill yn pallu udunt. kanys ual yllunyei vanaó-dan y góeith y góniei pryderi. Dyuot y crydyon a chymryt kyghor. ſef agaóſſant yn eu kynghor du-unaó ar eullad. Pryderi heb y manaóydan y mae y góyr hynn ynmynnu anllad. Paham y kymerón ninneu hỹny ygan y taeogeu lladron heb y pryderi. namyn eu llad hóy oll. Nac ef heb ymaóydan nyt ymladón ac óynt. ac ny bydón ynlloegyr bellach. kyrchón parth adyuet. ac aón y hedrych. Pahyt bynnac y buant ar y ffordd óynt a doethant y dyuet. ac arberth agyrchaſſant. allad tan a wnaethant. adechreu ymborth a hela a threulaó mis uelly. achyn-null eukón attunt. abot uelly yno vlóydyn. aborego-éith kyuodi pryderi amanaóydan yhela. achyweir-yaó eukón amynet odieithyr y llys. Sef aw*naeth rei orcón. kerdet oeblaen amynet y berth vechan aoed geyr eullaw. ac ygyt ac yd aant yr berth kiliaó yn gyflym acheginwrych maór gantunt ac ymchoelut at y góyr. Neſſaón heb ypryderi parth arberth yedrych beth yſſyd yndi. neſſau parth ar berth a wnaethant. pan neſſayſſant. llyma uaed coet claerwyn ynkyuodi or berth. Sef aorac y cón ohyder y góyr ruthraw idaó. ſſef a wnaeth ynteu adaó y berth achilyaó dalym y órth y góyr. ac yny uei agos y góyr idaó Kyuarth arodei yrkón heb gilyaó yrdunt. A phan yghei y

